



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

**POLISI LLUOEDD WRTH GEFN A HYFFORDDIANT GALW I
WASANAETHU GYDA'R LLUOEDD ARFOG**

Adolygwyd	Dyddiad	Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid		Dyddiad Adolygu
1.				
2.				
3.				
Swyddog Polisi		Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan a'r dyddiad	Asesu Effaith Cydraddoldeb a dyddiad
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol		Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Pwyllgor Gweithredu'r brifysgol 6 Ebrill 2022	Mae sgrinio cychwynnol wedi'i gwblhau a daeth i'r casgliad y bydd adolygiad o'r holl achosion a gwmpesir gan y polisi hwn yn cael ei gynnal 12 mis ar ôl ei weithredu

1. Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Bangor yn cyflogi staff sy'n aelodau o'r lluoedd wrth gefn ac maent yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr y lluoedd wrth gefn at luoedd arfog y Deyrnas Unedig, eu cymunedau a'r gweithle sifil.

Mae'r brifysgol hefyd wedi ymuno â rhwydwaith o dros 400 o gyflogwyr yng Nghymru sy'n addo cefnogaeth i'r lluoedd arfog trwy ymrwmo i Gyfamod y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn arwydd o ymrwymiad y brifysgol fel rhan o'r sector addysg uwch i sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn cael eu trin yn deg.

2. Pwrpas a Chwmpas

Mae'r brifysgol wedi addo ei chefnogaeth i aelodau'r lluoedd wrth gefn, neu'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r lluoedd wrth gefn ac mae'n cydnabod yr hyfforddiant a wneir gan filwyr wrth gefn sy'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau a galluoedd sydd o fudd i'r unigolyn a'u cyflogwr. Bwriad y polisi hwn yw diffinio ein rhwymedigaethau tuag at yr holl weithwyr sy'n aelodau o'r lluoedd wrth gefn.

Ni fydd y brifysgol yn rhoi'r milwyr wrth gefn hynny sy'n hysbysu'r brifysgol am eu statws fel milwyr wrth gefn na'r milwyr wrth gefn hynny y rhoddir gwybod amdanynt i'r brifysgol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn uniongyrchol dan anfantais.

Bydd y brifysgol, yn amodol ar y darpariaethau a nodir yn Adran 4, yn cytuno i ryddhau milwyr wrth gefn i fynd i ddigwyddiadau hyfforddi'r lluoedd wrth gefn pan fyddant yn digwydd ar eu diwrnodau gwaith arferol.

Bydd y brifysgol, yn amodol ar y darpariaethau a nodir yn Adran 5, yn cytuno i ryddhau'r holl weithwyr sydd wedi eu galw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog.

Bydd y brifysgol yn parhau i drin contractau cyflogaeth gweithwyr sydd wedi eu galw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog fel rhai y gellir eu gweithredu drwy gydol cyfnod gwasanaeth ac ni fydd unrhyw golled mewn gwasanaeth di-dor na buddion cysylltiedig â gwasanaeth. [Dan Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985, terfynir gwasanaeth gweithiwr pan gaiff ei alw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog, ond ar yr amod bod y gweithiwr yn dilyn y weithdrefn hysbysu gywir o dan y ddeddf, gall ddychwelyd i'w swydd a chaiff parhad ei wasanaeth ei ddiogelu].

3. Mathau o Filwyr wrth Gefn

Ceir dau brif fath o filwr wrth gefn:

- Milwyr wrth gefn gwirfoddol - sifiliaid wedi eu recriwtio i'r llynges wrth gefn, aelodau wrth gefn o'r Royal Marines, aelodau wrth gefn o'r fyddin ac aelodau o'r Royal Auxiliary Air Force.
- Milwyr wrth gefn rheolaidd - cyn-filwyr rheolaidd a allai barhau i fod yn atebol i gael eu galw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog yn dibynnu ar ba mor hir y maent wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog.

Mae Deddf Lluoedd Wrth Gefn 1996 hefyd yn darparu ar gyfer categorïau eraill, megis:

- gwasanaeth milwyr wrth gefn llawn amser - milwyr wrth gefn sy'n dymuno gwasanaethu'n llawn amser gyda'r milwyr rheolaidd am gyfnod a bennwyd ymlaen llaw mewn man penodol
- ymrwymiad dyletswyddau ychwanegol - gwasanaeth rhan amser am gyfnod penodol mewn man penodol
- milwyr wrth gefn nodedig - milwyr yw'r rhain a gyflogir gan contractwr i ddarparu gwasanaeth i'r Weinyddiaeth Amddiffyn.
- milwyr wrth gefn parod – milwyr wrth gefn yw'r rhain, fel arfer gyda set arbennig o sgiliau, sydd ar gael ar fyr rybudd (gyda chytundeb ysgrifenedig gan eu cyflogwr)

4. Hysbysiad Statws Wrth Gefn

Mae'n ofynnol i filwyr wrth gefn hysbysu eu cyflogwr eu bod yn aelod o'r lluoedd wrth gefn a'r llu penodol y maent yn perthyn iddo. Gwneir hyn er mwyn i'r brifysgol allu darparu'r lefel briodol o gefnogaeth i'r milwr wrth gefn. Mae hyn hefyd yn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio adnoddau yn ystod cyfnodau o wyliau, e.e. hyfforddiant a/neu gyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Mae'r brifysgol hefyd yn cydnabod y sgiliau a'r profiadau ychwanegol y gall milwyr wrth gefn eu cynnig i'r brifysgol, ac felly mae'n ddefnyddiol i'r brifysgol wybod pwy sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiadau penodol hyn.

Mae hefyd yn ofynnol i filwyr wrth gefn roi caniatâd i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ysgrifennu'n uniongyrchol at eu cyflogwr. Gelwir hyn yn hysbysiad cyflogwr ac mae'n sicrhau bod y brifysgol yn cael gwybod bod yr aelod staff yn filwr wrth gefn a'r buddion, hawliau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r cyflogwr fod y gweithiwr yn aelod o'r lluoedd wrth gefn. Bydd y llythyr yn rhoi manylion am rwymedigaethau a hawliau'r gweithiwr os caiff ei alw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog; hawliau'r cyflogwr; a manylion y gefnogaeth ariannol sydd ar gael os bydd y gweithiwr yn cael ei alw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Lle bo modd, bydd hefyd yn rhoi manylion unrhyw ymrwymïadau hyfforddi blynyddol. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd yn anfon llythyr dilynol bob blwyddyn i gadarnhau bod y wybodaeth a gedwir yn parhau i fod yn gywir.

Cyfrifoldeb milwyr wrth gefn yw sicrhau bod eu manylion personol yn gyfredol, e.e. os ydynt yn newid cyflogwr neu'n gadael eu llu wrth gefn.

Dan unrhyw amgylchiadau, ni fydd milwyr wrth gefn o dan anfantais o ganlyniad i

hysbysu'r brifysgol am eu statws fel milwyr wrth gefn.

5. Ymrwymadau hyfforddi ac Amser i ffwrdd

Mae'r brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd yr hyfforddiant a wneir gan filwyr wrth gefn sy'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau a galluoedd sydd o fudd i'r lluoedd wrth gefn, yr unigolyn a'r brifysgol.

Mae milwyr wrth gefn fel arfer yn ymrwymo i 24-40 diwrnod o hyfforddiant y flwyddyn. Mae hyfforddiant yn tueddu i ddigwydd un noson yr wythnos, ar amrywiol benwythnosau trwy gydol y flwyddyn ac un cyfnod hyfforddi o bythefnos a elwir hefyd yn 'wersyll blynyddol'. Mae ymrwymadau hyfforddi'n amrywio ond yn y rhan fwyaf o achosion maent yn cynnwys y canlynol:

- **Hyfforddiant wythnosol** - mae mwyafrif y milwyr wrth gefn yn hyfforddi yn eu canolfan leol am tua dwy awr a hanner, un noson yr wythnos.
- **Hyfforddiant penwythnos** - disgwylir i bob milwr wrth gefn fynd ar nifer o benwythnosau hyfforddi a gynhelir trwy gydol y flwyddyn.
- **Hyfforddiant blynyddol** - cwrs hyfforddi blynyddol am bythefnos y cyfeirir ato weithiau fel 'gwerysll blynyddol'. Gall hyn ddigwydd mewn sefydliad hyfforddi, fel atodiad i uned o filwyr rheolaidd, ymarfer hyfforddi neu gyfuniad o unrhyw un o'r rhain. Mae'r hyfforddiant fel arfer yn digwydd yn y Deyrnas Unedig, er bod rhai milwyr wrth gefn yn hyfforddi dramor bob blwyddyn.

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i ganiatáu pythefnos ychwanegol o wyliau â thâl i filwyr wrth gefn yn benodol i'w galluogi i fynd i'r gwerysll blynyddol. Caiff unrhyw geisiadau am wyliau ychwanegol, er enghraifft i fynd ar gyfnod byr o hyfforddiant eu hystyried gan yr adran / coleg / ysgol a bydd ar sail ddi-dâl.

Caniateir gwyliau di-dâl ychwanegol neu wyliau blynyddol o wyliau blynyddol arferol y gweithiwr am gyfnodau byr o hyfforddiant ar yr amod bod rhybudd digonol yn cael ei roi ac na ellir ymgymryd â hyfforddiant o'r fath y tu allan i oriau gwaith. Bydd presenoldeb mewn hyfforddiant penwythnos na ellir ei wneud y tu allan i oriau gwaith yn amodol ar yr un trefniadau.

Dylai milwyr wrth gefn roi cymaint o rybudd â phosib am eu hymrwymadau hyfforddi er mwyn caniatáu cynllunio priodol ar gyfer absenoldebau. Unwaith y rhoddir caniatâd, ni chaiff ei ddiddymu oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

6. Galw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog

Galw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog yw'r broses o alw milwyr wrth gefn i wasanaeth llawn amser gyda'r lluoedd rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod ar gael ar gyfer ymgyrchoedd milwrol. Bydd y cyfnod hwyaf o wasanaeth yn dibynnu ar raddfa a natur yr ymgyrch ac fel arfer ni fydd yn hwy na blwyddyn.

Anfonir y papurau yn galw'r gweithiwr i wasanaethu drwy'r post i'r brifysgol neu weithiau cânt eu cyflwyno gan y milwr wrth gefn i'w reolwr llinell. Bydd y ddogfennaeth yn cynnwys y dyddiad galw i wasanaethu a'r amserlen a ragwelir. Lle bynnag y bo'n bosib, nod y Weinyddiaeth Amddiffyn yw rhoi o leiaf 28 diwrnod o rybudd o'r dyddiad y bydd rhaid i filwr wrth gefn ddechrau ar ei gyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog, er nad oes gofyniad statudol am gyfnod rhybudd cyn dechrau cyfnod o wasanaethu.

Mae cyfnod o wasanaethu yn cynnwys tri chyfnod gwahanol:

- Hyfforddiant meddygol a chyn-ymfyddiniad;
- Taith weithredol;
- Seibiant ar ôl taith weithredol

Cyn dechrau cyfnod o wasanaethau gyda'r lluoedd arfog, dylai'r unigolyn a'r aelod staff gyfarfod i sicrhau bod yr holl waith papur gofynnol wedi ei gwblhau, trafod unrhyw drefniadau trosglwyddo, a threfniadau ar gyfer cadw mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod o wasanaethu.

7. Gwneud cais am Eithriad/Gohiriad/Diddymu

Ym mhob achos o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog, bydd y brifysgol yn rhyddhau'r milwr wrth gefn i ymbresenoli ar gyfer dyletswydd oni bai bod amgylchiadau eithriadol, lle bydd y penderfyniad a'r rhesymeg yn cael eu hesbonio i'r milwr wrth gefn.

Dan amgylchiadau o'r fath, mae gan reolwyr llinell yr hawl i ofyn i gael eithrio, gohirio neu ddirymu os bernir y bydd absenoldeb y milwr wrth gefn yn achosi niwed difrifol i ddarpariaeth gwasanaeth.

Bydd diffiniadau o 'niwed' yn amrywio o achos i achos, ond gall gynnwys y canlynol;

- colli enw da, ewyllys da neu niwed ariannol arall
- amharu ar y gallu i gynhyrchu nwyddau neu ddarparu gwasanaethau
- niwed i ymchwil a datblygiad cynhyrchion, gwasanaethau neu brosesau newydd (na ellid ei atal trwy roi cymorth ariannol o dan adrannau 83 ac 84 Deddf Lluoedd Wrth Gefn 1996).

Mae manylion ynglŷn â sut i wneud cais am eithriad wedi eu cynnwys yn y 'call-out pack'. Rhaid i'r cais gyrraedd y Swyddog Dyfarnu o fewn 7 niwrnod ar ôl i'r brifysgol dderbyn hysbysiad y gelwir y milwr wrth gefn i wasanaethu. Os na ellir bodloni'r amserlen hon, bydd rhaid cael caniatâd gan y Swyddog Dyfarnu i wneud cais hwyr. Mae gan y milwr wrth gefn hefyd yr hawl i wneud cais am eithriad neu ohiriad os bydd y papurau yn ei alw i wasanaethu yn cyrraedd ar adeg anodd.

Os daw penderfyniad anfoddhaol i law yn dilyn y cais am ohiriad, gall y brifysgol apelio am wrandawriad gan driwlynlys apeliadau'r lluoedd wrth gefn. Rhaid i apeliadau gyrraedd ysgrifennydd y triwlynlysoedd cyn pen 5 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad. Os bydd y triwlynlys yn gwrthod y cais am eithriad neu ohiriad, bydd rhaid i'r brifysgol ryddhau'r milwr wrth gefn i gyflawni'r cyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog.

8. Trin Telerau ac Amodau yn ystod byddino

Bydd y brifysgol yn parhau i drin contractau cyflogaeth gweithwyr a alwyd i wasanaethu yn y lluoedd arfog fel rhai y gellir eu gweithredu drwy gydol y cyfnod, ac ni cholli unrhyw wasanaeth parhaus.

Cyflogau

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cymryd cyfrifoldeb am gyflog milwyr wrth gefn tra byddant wedi eu galw i wasanaethu. Byddant yn talu cyflog sylfaenol yn seiliedig ar reng filwrol y milwyr wrth gefn. Os bydd y cyflog sylfaenol yn llai na'r cyflog a gaiff y milwr wrth gefn gan y brifysgol, cyfrifoldeb y milwr wrth gefn yw gwneud cais i'r Weinyddiaeth Amddiffyn am y gwahaniaeth er mwyn sicrhau nad yw ar ei golled. Gelwir hyn yn *Reservist Award*.

Bydd y gweithiwr yn cael cyfnod o absenoldeb di-dâl pan gaiff ei alw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Nid oes rhaid i'r brifysgol dalu cyflog y milwr wrth gefn yn ystod y cyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog.

Manteision

Gall y milwr wrth gefn hawlio unrhyw fuddion cytundebol sy'n cael eu hatal gan y brifysgol yn ystod ei gyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog fel rhan o'u *Reservist Award*.

Pensiwn

Os yw'r milwr wrth gefn yn aelod o gynlluniau pensiwn y brifysgol a bod y cyflogwr yn atal cyfraniad y cyflogwr, a'r milwr wrth gefn yn dewis aros yn y cynllun, yna bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwneud cyfraniadau'r cyflogwr am y cyfnod y gelwir y milwr wrth gefn i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog, cyhyd ag y bydd y milwr wrth gefn yn parhau i dalu ei gyfraniadau personol.

Gwyliau Blynyddol

Dylid annog milwyr wrth gefn i gymryd unrhyw wyliau blynyddol a gronwyd cyn eu cyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Ni fydd y gweithiwr yn cronni gwyliau yn ystod y cyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Mae milwyr wrth gefn yn cronni gwyliau blynyddol gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn tra maent mewn gwasanaeth llawn amser. Pan fydd eu cyfnod o wasanaethu gyda'r fyddin wrth gefn wedi dod i ben, mae gan filwyr wrth gefn hawl i gyfnod o absenoldeb ôl-weithredol (*post-operational leave*). Yn ystod y cyfnod hwn byddant yn parhau i gael eu talu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Diswyddo/Terfynu Cyflogaeth

Ni ellir terfynu cyflogaeth milwyr wrth gefn ar sail eu dyletswyddau milwrol neu eu hatebolrwydd i gael eu galw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Byddai gwneud hynny yn drosedd dan erthygl 17 Deddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985.

Ond gellir cynnwys milwyr wrth gefn mewn unrhyw ymarfer ailstrwythuro a/neu ddiswyddo a all ddigwydd yn y brifysgol. Ni ddylai'r ymarfer, nac unrhyw feini prawf a ddefnyddir, wahaniaethu yn erbyn milwyr wrth gefn ar sail eu gwasanaeth gyda'r lluoedd wrth gefn neu atebolrwydd i gael eu galw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog.

Tâl Salwch

Os bydd milwr wrth gefn yn mynd yn sâl neu'n cael ei anafu yn ystod cyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog, caiff ei drin gan wasanaethau meddygol y Weinyddiaeth Amddiffyn a bydd unrhyw gymorth ariannol yn parhau i gael ei dderbyn (gan gynnwys tâl) nes iddo gael ei ryddhau o'i gyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Os bydd y salwch neu'r anaf yn parhau a bod hyn yn arwain at y cyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog yn dod i ben yn gynnar, bydd y milwr wrth gefn yn parhau i gael gofal gan y Weinyddiaeth Amddiffyn tan ddiwrnod olaf ei absenoldeb milwrol â thâl.

Ar ôl hynny, bydd y milwr wrth gefn yn dod o dan bolisi a gweithdrefn absenoldeb salwch y brifysgol.

9. Dychwelyd i'r Gwaith

Mae gan y milwr wrth gefn a'i gyflogwr rwymedigaethau dan Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985 o ran y broses o dychwelyd i'r gwaith.

Milwr wrth gefn:

Rhaid i'r milwr wrth gefn ysgrifennu at ei gyflogwr erbyn y trydydd dydd Llun ar ôl diwrnod olaf ei wasanaeth milwrol yn gwneud cais i ddychwelyd i'r gwaith ac awgrymu dyddiad a ddylai fod cyn pen 6 wythnos ar ôl diwrnod olaf ei wasanaeth llawn amser yn y lluoedd arfog. Mae'r llythyr hwn yn dechrau'r broses ffurfiol o ddychwelyd i'r gwaith.

Anogir hwy hefyd i gysylltu'n anffurfiol â'r cyflogwr i drafod dychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosib, boed hynny trwy lythyr, cyfarfod, e-bost neu alwad ffôn. Rhaid gwneud y cais ffurfiol yn ysgrifenedig er mwyn i'r cais fod yn ddilys o dan y ddeddf.

Os na all milwr wrth gefn ddychwelyd i'w swydd arferol, ac y cynigir swydd arall iddo, os nad yw'n hapus â'r cynnig amgen, rhaid iddo hysbysu'r brifysgol gan nodi pam fod achos rhesymol dros beidio â derbyn y swydd arall. Os yw milwr wrth gefn yn credu bod ymateb cyflogwr i'w gais yn mynd yn groes i'w hawliau dan Ddeddf Diogelu Cyflogaeth 1985, gellir gwneud cais i bwyllgor adfer am asesiad. Bydd y pwyllgor hwn yn ystyried cais y milwr wrth gefn a gall wneud gorchymyn adfer a/neu orchymyn iawndal.

Mae gan y brifysgol rwymedigaeth dan Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985 i roi ei swydd arferol yn ôl i'r milwr wrth gefn, lle bo'n bosib, ac os nad yw'n bosib, swydd sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr gyda'r un telerau ac amodau a oedd gan y milwr wrth gefn cyn iddo gael ei alw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog.

Weithiau bydd angen hyfforddiant gloywi ar filwyr wrth gefn pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith, neu amser i ymgylfarwyddo â phrosesau a gweithdrefnau yn y gwaith. Mae'n bosib y bydd cymorth ariannol ar gael ar gyfer ailhyfforddi os oes angen o ganlyniad uniongyrchol i gyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog, er na ellir gwneud ceisiadau am gyrsiau hyfforddi a fyddai wedi digwydd beth bynnag. Bydd rhaid dangos tystiolaeth o gostau yn ogystal â thystiolaeth na allai'r milwr wrth gefn gyrraedd y safon ofynnol mewn unrhyw ffordd arall, megis profiad yn y gwaith.

10. Ôl-ofal

Bydd milwr wrth gefn sy'n dychwelyd i'r gwaith yn elwa o broses lyfn o ail-integreiddio yn y gwaith/tîm. Bydd y brifysgol yn ystyried y canlynol fel rhan o'r broses hon:

- Bod angen diweddariad ar newidiadau a datblygiadau yn y brifysgol.
- Bod angen cynnig hyfforddiant gloywi penodol lle y ceisir/ystyrir ei fod yn angenrheidiol.
- Os bydd dyletswyddau'r swydd wedi newid ers y cyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog, mae'n bosib y bydd rhaid wrth gyfnod o hyfforddiant sgiliau i gynorthwyo ag agweddau newydd ar y swydd.

- A all y milwr wrth gefn gwrdd â chydweithwyr yn anffurfiol neu'n gymdeithasol cyn neu ar ôl dychwelyd i'r gwaith, er mwyn osgoi teimlo allan ohoni, os yw'n dymuno hynny.
- Amser rhesymol i ffwrdd i geisio triniaeth therapiwtig os oes angen.

11. Cymorth Ariannol

Mae cymorth ariannol ar gael i gyflogwyr os bydd gweithiwr sy'n filwr wrth gefn yn cael ei alw i wasanaethu dan amodau'r *Reserve Forces (Call out and recall) (Financial Assistance) Regulations 2005*. Mae'r rhain yn cynnwys costau ychwanegol uwchlaw cyflog arferol y milwr wrth gefn sy'n cael ei alw i wasanaethu sy'n gysylltiedig â chyflogi rhywun yn ei le. Mae 3 math o gymorth ar gael:

Costau untro

- Ffioedd asiantaeth, os defnyddir asiantaeth recriwtio neu asiantaeth gyflogi i ddod o hyd i rywun yn ei le dros dro; neu gostau hysbysebu (nid oes cap ariannol ar y costau hyn, ond rhaid cynnwys dogfennaeth berthnasol gydag unrhyw hawliad).

Costau rheolaidd

- Costau goramser, os yw gweithwyr eraill yn gweithio goramser i wneud gwaith y milwr wrth gefn [os yw costau o'r fath yn fwy na chyflog y milwr wrth gefn]
- Costau cyflogi rhywun dros dro yn lle'r milwr wrth gefn [os yw costau o'r fath yn fwy na chyflog y milwr wrth gefn]

Uchafswm yr hawliad posib yw £110 y diwrnod (£40,000 y flwyddyn). Gellir gwneud hawliad am bob diwrnod gwaith arferol tra bydd y milwr wrth gefn i ffwrdd yn gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Rhaid gwneud cais am gostau untro a chostau rheolaidd cyn pen 4 wythnos ar ôl diwedd gwasanaeth llawn amser y milwr wrth gefn.

Tâl hyfforddi

Os bydd rhaid i filwr wrth gefn sy'n dychwelyd ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol o ganlyniad uniongyrchol i'w gyfnod o wasanaethu gyda'r lluoedd arfog (ac eithrio hyfforddiant arferol), yna gall y brifysgol wneud cais am gymorth ariannol.

12. Adolygu'r Polisi

Caiff y polisi a'r weithdrefn hon eu hadolygu'n rheolaidd, o leiaf pob tair blynedd, a chânt eu darllen a'u cymhwyso bob amser yn amodol ar gyfraith gwlad.